# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Ionawr 2020

Amser: 12.50 - 15.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5634

# Drafft

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (yn lle Nick Ramsay AC)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Clare Pillman, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Syr David Henshaw, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>David Rees<br>Julie Rees |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Lowri Barrance (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd Darren Millar AC yn dirprwyo.

1.2 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22. Enwebodd Jenny Rathbone AC Darren Millar AC, a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.4 Cafwyd ymddiheuriad gan Adam Price AC.

## 2 Cyfoeth Naturiol Cymru

2.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Cyfoeth Naturiol Cymru yn fanwl ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor (Tachwedd 2018) ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cyfoeth Naturiol Cymru: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunwyd i ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch nifer o faterion sy'n codi.

## 5 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Llesiant Pobl Ifanc

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch yr Adroddiad trawsbynciol hwn, a chytunwyd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol i ofyn am ragor o wybodaeth.